# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 19 Ionawr 2023** |
| Amser: | **09.30** |

## Cofnodion: SC(6)2023(1)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol**<br>**Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant**<br>**Simon Hart, Pennaeth dros dro y Gwasanaethau Ariannol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Gofynnodd y Comisiynwyr

## 2 Ail Gyllideb Atodol Comisiwn y Senedd 2022-23

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y Comisiwn yn 2022-23. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyllideb atodol sy'n lleihau'r gofyniad arian parod cyffredinol gan £0.975 miliwn wedi cael ei hargymell. Dyma'r prif ffactorau a oedd llywio'r gyllideb atodol hon:

- Y ffaith bod y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr wedi cael ei wrthdroi
- Gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd
- Rhagolwg o danwariant yn y cyllidebau a glustnodwyd ar gyfer i) Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, ii) cymorth i'r Bwrdd Taliadau a iii) cymorth i swyddfa'r Comisiynydd Safonau
- Gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 newydd – Prydlesi.

Cytunodd y Comisiynwyr i nodi a chymeradwyo'r Memorandwm Esboniadol, mewn perthynas â'r ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2022-23, i'w gyflwyno i'w gynnwys yng nghynnig Llywodraeth Cymru yn Chwefror 2023 ar gyfer y gyllideb. Byddai hyn yn lleihad o £1.075 miliwn i'r Gyllideb Atodol Gyntaf a osodir ar gyfer 2022-23, sef gostyngiad o £0.975 miliwn yn y gofyniad arian parod net.

Cymeradwywyd hefyd y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i gyd-fynd â'r Gyllideb Atodol arfaethedig.

## 3 Taliad Costau Byw 2022-23 i Staff y Comisiwn

Trafododd y Comisiynwyr gynnig i gefnogi gweithwyr y Comisiwn ar y cyflogau isaf gyda thaliad Costau Byw, a'r rheswm dros gasgliadau'r Bwrdd Gweithredol. Cytunodd y Comisiwn i wneud y canlynol:

- cefnogi penderfyniad y Bwrdd Gweithredol i wneud taliad o £500 i holl gyflogeion y Comisiwn y mae eu cyflog ar raddfeydd TS ac M3 (EO) (staff sy'n cael cyflog is na £32,000 cyfwerth ag amser llawn);
- cefnogi penderfyniad y Bwrdd Gweithredol i wneud taliad llawn i'r holl staff cymwys, gan gynnwys staff rhan amser ar sail ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA);
- nodi bwriad y Bwrdd Gweithredol i wneud y taliad hwn mewn tri thaliad llai, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth; a

chefnogi penderfyniad y Bwrdd Gweithredol i beidio â gwneud y taliad hwn i staff contractwyr, ac, yn hytrach, yn cefnogi penderfyniad i ysgrifennu at gyrff sydd â chontractau yn annog trefniadau tebyg.

## 4 Unrhyw faterion eraill

Gofynnodd y Comisiynwyr am sicrwydd ynghylch diogelwch y mynedfeydd i'r ystâd yn dilyn problem gydag un o'r paneli gwydr. Dywedwyd wrthynt fod atgyweiriadau dros dro wedi'u cwblhau a bod contractwr arbenigol a'n contractwr rheoli cyfleusterau wedi asesu'r sefyllfa cyn i'r fynedfa gael ei hailagor. Byddai camau gweithredu ychwanegol yn ymwneud â diogelwch y fynedfa yn cael eu cymryd yn yr wythnosau nesaf.